

Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – Eitem 9(iii)

Y wybodaeth ddiweddaraf am gyllyll môr – Mai 2018

Cefndir

Mae amheuaeth ynghylch cynaliadwyedd y broses casglu cylllyll môr â llaw yng Nghymru yn dilyn pryderon a fynegwyd yn ddiweddar ynghylch gorbysgota ac achosion proffil uchel o gynaeafu torfol ar welyau rhynglanwol. Yn dilyn proses dendro lwyddiannus, penodwyd NAFC Marine Centre i gwblhau adolygiad o gyllyll môr yng Nghymru. Diben yr adroddiad oedd rhoi gwybodaeth am fioleg ac ecoleg cylllyll môr yng Nghymru ac adolygu dulliau o asesu stoc o gyllyll môr ar gyfer ardaloedd rhynglanwol ac islanwol, gan argymhell y dulliau mwyaf cost-effeithiol i'w defnyddio yng Nghymru.

Argymhellion o adroddiad NAFC

- Byddai ymchwil ychwanegol i fioleg ac ecoleg cylllyll môr e.e. amseriad recriwtio, dosbarthiadau oedran a'r gallu i oroesi, yn fuddiol er mwyn helpu i gynllunio arolwg asesu stoc.
- Mae angen gwneud rhagor o ymchwil i bennu Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf priodol ar gyfer *Ensis* spp.
- Y dull samplu mwyaf cost-effeithiol ar gyfer ardaloedd rhynglanwol yw cyfuniad o hidlo/cloddio, ond mae'r dull hwn yn gyfyngedig, yn enwedig am fod *Ensis* spp. yn tyrchu'n ddwfn dan ddaear.
- Ar gyfer ardaloedd islanwol, awgrymwyd mai cyfuniad o lusgrwydo hydrologig gan ddefnyddio llusgrwydi a gynlluniwyd yn arbennig a defnyddio cyfarpar electrobysgota sydd wedi'u cysylltu â camera yw'r dull mwyaf effeithiol. Fodd bynnag, mae dal organebau morol gan ddefnyddio dulliau sy'n cynnwys cerrynt trydanol wedi'i wahardd ar hyn o bryd yn nyfroedd Ewrop (Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 850/98).

Y camau nesaf

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yr argymhellion sy'n deillio o'r adroddiad.

**Jenni Hartley
Mai 2018**